

PWYLLGOR CYNLLUNIO

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau'n bresennol:

Dydd Mawrth, 1 Awst 2023

Cadeirydd:	Aelod J.Jones
Is-gadeirydd:	Aelod T.Bowen
Cynghorydd:	S.Paddison, D.Keogh, C.James, C.Jordan, S.Thomas, N.Goldup-John a/ac P.Rogers
Aelod CDU/CDLI:	Aelod W.F.Griffiths
Aelodau Lleol:	Aelod R.Phillips (Trebanos;) a/ac P.A.Rees (Neath South;)
Swyddogion yn bresennol:	C.Davies, G.White, R.MacGregor, J.Weeks, C.Plwman a/ac C.Hall
Swyddogion yn bresennol:	C.Davies, G.White, R.MacGregor, J.Weeks, L.Thomas, M.Griffiths, T.Davies a/ac C.Plwman

1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd:

Y Cyng. C Jordan

Parthed Eitem 6 ar yr Agenda, Cais Rhif T2023/02, gan fod y preswlydd yn ffrind i'r teulu. Penderfynodd y Cyng. mai cysylltiad personol oedd hwn, a chymerodd ran yn y drafodaeth a'r bleidlais wedi hynny.

Y Cyng. T Bowen.

Parthed Eitem 6 ar yr Agenda, Cais Rhif T2023/02, gan fod y preswlydd yn ffrind i'r teulu. Penderfynodd y Cyng. mai budd niweidiol oedd hwn, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

4. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE O'R CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ymweliad(au) safle.

5. **CAIS RHIF P2023/0240 - 9 HEOL UWCHDIR, PONTARDAWE**

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio am y cais hwn (newid defnydd o annedd unigol (dosbarth defnydd C3) i gartref gofal preswyl (dosbarth defnydd C4) am hyd at 4 plentyn a'u gofalwyr) yng Nghraig y Rhedyn, 9 Heol Uwchdir, Pontardawe SA8 4AH fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelod Ward Lleol wedi gofyn i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, ac roedd yn bresennol i roi ei sylwadau yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cais Rhif P2023/0240, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **CAIS RHIF T2023/02 - 111 HEOL CIMLA, CASTELL-NEDD**

Ailddatganodd y Cyng. T Bowen ei fudd a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (cadarnhau T1 Pinwydden Corsica (Pinus Nigra) a T2 Pinwydden yr Alban(Pinus Sylvestris) yn 111 Heol Cimla, Castell-nedd SA11 3UE, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelod Ward Lleol wedi gofyn i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, ac roedd yn bresennol i roi ei sylwadau yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cais Rhif P2023/02, yn unol ag argymhellion swyddogion.

Yn ogystal, byddai'r cyngor yn ysgrifennu at berchnogion y coed (Tai Tarian) ac yn eu gwahodd i wneud cais am waith adfer i liniaru'r elfen niwsans o ganlyniad i ganghennau bargodol.

7. **APELIADAU A BENDERFYNWYD - 19.04.23 I 24.07.23**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Apeliadau a Benderfynwyd o 19 Ebrill i 24 Gorffennaf 2023.

PENDERFYNWYD: y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

8. **APELIADAU A DDERBYNIWYD - 19.04.23 I 24.07.23**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Apeliadau a Dderbyniwyd o 19 Ebrill 2023 i 24 Gorffennaf 2023.

PENDERFYNWYD y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

9. **PENDERFYNIADAU A DDIRPRWYWYD - 19.04.23 I 24.07.23**

Nododd yr aelodau'r rhestr o Benderfyniadau a Ddirprwywyd o 19 Ebrill 2023 i 24 Gorffennaf 2023.

PENDERFYNWYD y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

10. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

CADEIRYDD